Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2011-12
30 Tachwedd 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
www.cynulliadcymru.org

Hefyd gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras; fersiwn sain neu gopïau caled gan:
Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: enterprise.learning.comm@cymru.gov.uk

Gellir cael gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a chyhoeddiadau blaenorol ar http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home.htm
Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn ar gael ar:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

1. Cyflwyniad

1. Ar 17 Tachwedd 2010, cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2012. Cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Dysgu gyfarfod ar 24 Tachwedd i holi Gweinidogion Cymru am y gyllideb ddrafft yn y meysydd o fewn ein portffolio - datblygu'r economi, trafnidiaeth, addysg a dysgu gydol oes a sgiliau.

2. Hoffem gofnodi'n diolch i'r Gweinidogion a'r swyddogion am ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer ein hymchwiliad byr. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith sylweddol a oedd ynghlwm â pharatoi'r wybodaeth honno, a hefyd y penderfyniadau anodd sy'n gorfod cael eu gwneud o fewn y fframwaith ariannol presennol.

3. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganlyniadau ac argymhellion ein gwaith craffu. Gobeithio y byddant yn ddefnyddiol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo roi ystyriaeth gyffredinol i ddull strategol Llywodraeth Cymru o bennu cyllideb y flwyddyn nesaf.

2. Datblygu'r economi

Monitro a gwerthuso

4. Rhoesom her i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i egluro sut mae'r gyllideb ddrafft yn cynnal pedair blaenoriaeth strategol y Llywodraeth sef diogelu gwasanaethau rheng flaen, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, hyrwyddo cyfle cyfartal ac adfer yr economi, a sut caiff y cynnydd o ran cyflawni'r canlyniadau hyn ei fesur a'i asesu. Rydym yn bryderus nad yw'n ymddangos bod unrhyw fframwaith perfformiad trwyadl ar waith eto.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu, ar frys, fframwaith ar gyfer mesur effaith ei pholisïau datblygu economaidd yn erbyn amcanion strategol.

Rydym hefyd yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru egluro'r rôl y disgwyliant i Gyngor Adnewyddu'r Economi, sydd newydd ei

gyhoeddi ei chwarae o ran sicrhau y gellir dwyn perfformiad y Llywodraeth yn y maes hwn i gyfrif yn rheolaidd.

3. Trafnidiaeth

Teithio cynaliadwy

5. Rydym yn croesawu sylw'r Dirprwy Brif Weinidog bod mwy o arian bellach yn cael ei wario ar drafnidiaeth gyhoeddus (60%) nac ar ffyrdd (40%).

6. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi polisi tocynnau teithio rhatach Llywodraeth Cymru ac ni hoffem weld ei lwyddiant yn cael ei wanhau mewn unrhyw fodd. Ond rydym yn pryderu y gall wasgu mentrau teithio cynaliadwy eraill a oedd wedi'u hanelu at gynyddu'r symudiad moddol o drafnidiaeth breifat i drafnidiaeth gyhoeddus . Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn cydnabod ei bod yn anodd i ni weld manylion hyn oherwydd y ffordd y caiff y gyllideb ei chyflwyno, felly addawodd rannu rhagor o wybodaeth gyda ni ynghylch sut y gwnaethpwyd penderfyniadau o fewn y rhan hon o'r gyllideb. Derbyniwyd rhywfaint o wybodaeth ar 29 Tachwedd, ond nid yw'n ein galluogi i wneud unrhyw werthusiad neu gymhariaeth ystyrlon o effaith gymharol "buddsoddiad parhaus" y Llywodraeth yn y maes hwn. Rydym felly'n argymell bod y Pwyllgor Cyllid yn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn. .

Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor Cyllid graffu ar effaith cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer costau'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn y dyfodol, ar y gyllideb refeniw ac ar y gyllideb gyfalaf er mwyn datblygu teithio cynaliadwy. Dylai hefyd wneud argymhellion i'r Gweinidogion ar gyfer diogelu mentrau trafnidiaeth gyhoeddus eraill.

Trafnidiaeth rheilffyrdd

7. Wrth holi'r Dirprwy Brif Weinidog, dywedodd wrthym ei fod yn bwriadu cyhoeddi, ym mis Rhagfyr, rhestr o brosiectau rheilffyrdd sy'n mynd rhagddynt, ynghyd â'r rhai a gaiff eu canslo neu a fydd yn wynebu oedi. Credwn y bydd yn bwysig i ni edrych yn fanwl ar y rhestr honno pan fydd ar gael.

8. Rydym yn croesawu bwriad y Dirprwy Brif Weinidog i gynnal rhagor o drafodaethau gyda Threnau Arriva Cymru yn wyneb y gyllideb, er mwyn cytuno ar welliannau i wasanaethau rheilffyrdd a blaenoriaethau. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am sylwadau swyddogion Llywodraeth Cymru y dylem "fod yn hollol sicr mai'r cynlluniau trafnidiaeth yw rhai o'r cynlluniau sy'n cael eu gwerthuso orau o blith y rhai y mae'r Llywodraeth yn gwario arian arnynt". Ni all y Llywodraeth fforddio bod yn hunanfodlon.

9. Felly bwriadwn gynnal sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Brif Weinidog yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Byddwn yn ei holi ymhellach ynghylch y materion hyn, fel rhan o drafodaeth ehangach ar y cynnydd a wnaed ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Ionawr 2010 ar Ddyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru. Bydd y cynnydd gyda'r cynlluniau rheilffyrdd yn dibynnu ar gydweithrediad Network Rail ac mewn rhai achosion, bydd hefyd yn dibynnu ar iddo ddarparu cyfran o'r cyllid. Hoffem felly nodi'n bwriad i gynnwys Network Rail fel rhan o'r gwaith craffu hwnnw.

Trafnidiaeth ffyrdd a diogelwch

10. Deallwn y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn gwneud cyhoeddiad ar becyn y cynllun Cefnffyrdd cyfan ym mis Rhagfyr, a bwriadwn gynnal sesiwn graffu lawn ar y cyhoeddiad hwnnw yn nhymor y gwanwyn.

11. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd a gwelliannau amgylcheddol yn ein pryderu'n fawr, yn enwedig gan fod cyflwyno polisïau yn y maes hwn yn dibynnu ar bartneriaethau ehangach gyda llywodraeth leol. Caiff y wasgfa ganolog ar fentrau diogelwch ar y ffyrdd eu cymhlethu ymhellach felly gan bwysau cyllidebol awdurdodau lleol unigol.

12. Rydym hefyd yn pryderu am ymatebion swyddogion Llywodraeth Cymru y caiff diogelwch ar y ffyrdd ei gynnwys mewn prosiectau ffyrdd newydd. Rydym yn derbyn yr angen i brif-ffrydio diogelwch ar y ffyrdd yn y ffordd honno, ond mae cymaint o ffyrdd Cymru'n hen. Yn ein barn ni, mae hyn yn achos o daflu'r baich at sefydliadau eraill a fydd hefyd yn cael anhawster o ran wynebu costau diogelwch. Yn ei gyfanrwydd, gwariant cymharol fach yw hwn ond mae'n creu manteision mawr: newid ymddygiad modurwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill sydd angen fwyaf o arian refeniw. Bwriadwn ddychwelyd at y mater hwn yn y Flwyddyn Newydd fel rhan o sesiwn graffu ddilynol ar ein hadroddiad a

gyhoeddwyd ym mis Medi 2009 ar Leihau Nifer y Bobl a gaiff eu Hanafu neu eu Lladd a Rheoli Cefnffyrdd.

Credwn ei bod yn hanfodol bod record ardderchog Cymru o ran diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei chynnal ac felly rydym yn argymell bod y Pwyllgor Cyllid yn holi Llywodraeth Cymru ymhellach ynghylch cost effeithiolrwydd cynigion i leihau ei chyllideb diogelwch ar y ffyrdd.

4. Addysg

Addysg Uwch

13. Credwn fod cael sector addysg uwch egnïol yn allweddol i ddatblygu economi Cymru. Rydym felly'n croesawu sylw'r Gweinidog bod angen i Gymru anelu at ragoriaeth a bod yn gystadleuol ar lefel ryngwladol o ran ei system addysg uwch.

14. Edrychwn ymlaen at bwyso a mesur ymateb y Gweinidog i adolygiad Browne o addysg uwch gan ein bod yn pryderu y bydd sefydliadau addysg uwch yn wynebu toriadau dwbl - o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ac o ostyngiadau yn eu ffynonellau eraill o arian. Bwriadwn ddychwelyd at y mater hwn yn ystod tymor y gwanwyn pan fyddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Hydref 2009 ar Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru.

Ysgolion

15. Hoffem gofnodi'n cefnogaeth i'r Gweinidog am sicrhau arian ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Bydd gennym ddiddordeb mawr mewn clywed am ganfyddiadau grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog ar strwythur darparu addysg yng Nghymru. Bydd hwn hefyd, fel y dywedwyd wrthym, yn cynnwys ystyriaeth i ariannu ysgolion.

16. O ran brecwast mewn ysgolion croesawn onestrwydd y Gweinidog yn ystyried effaith economaidd y fenter, er ein bod yn derbyn nad dyma ddiben sylfaenol y cynllun.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys, mewn gwerthusiadau yn y dyfodol, y cyfraniad y mae'r fenter brecwast mewn ysgolion yn ei wneud i ddatblygu'r economi.

Sgiliau

17. Rydym hefyd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid ar gyfer sgiliau. Fodd bynnag, gwelwn yr angen am agwedd fwy cydgysylltiedig er mwyn sicrhau y gall y gwaith sy'n cael ei wneud yn y sector addysg bellach, Llwybrau Dysgu I4-19 ac mewn prentisiaethau modern, fodloni anghenion canfyddadwy'r economi. Mae'n hanfodol y dylid gwario arian cyhoeddus yn y ffordd orau bosibl.

Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop

18. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu rhaglen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop a'i bod yn hyderus bod arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop yn ddiogel. Rydym yn parhau i geisio rhagor o sicrwydd fodd bynnag, nad yw Cymru, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, yn cyfaddawdu ei gallu i gyflawni prosiectau addysg a sgiliau pwysig trwy fethu â sicrhau cyllid o Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop.

Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Cyllid yn craffu ymhellach ar unrhyw risg o danwario yn rhaglen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop o ganlyniad i gynigion y gyllideb ddrafft.

5. Arian cyfalaf

19. Lawer gwaith, yn ystod ein sesiynau craffu ar Weinidogion, roedd yn ymddangos bod dull pragmataidd o ddiogelu'r gyllideb gyfalaf bresennol trwy ymchwilio i fodelau ariannu eraill fel partneriaethau cyhoeddus preifat. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn "hollol agored i gyfalaf arall" ar gyfer ysgolion a cholegau, a oedd yn amheuthun i'w glywed. Gwyddom fod yr Alban wedi datblygu dull nodedig yn y maes hwn a chredwn y byddai budd i'r cyhoedd o ystyried priodoldeb dull Cymreig i'r math hwn o fodel ariannu.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad o rinweddau modelau partneriaethau cyhoeddus preifat gwahanol fel modd o greu ffynonellau gwahanol o arian er mwyn cyflawni prosiectau cyfalaf a hefyd arbed ar wariant refeniw yn y tymor hwy.